# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Adroddiad Blynyddol Panel Rhiant Corfforaethol 2022-2023 |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Elin Walker Jones, Aelod Cabinet dros Blant a Cefnogi Teuluoedd |
| **Swyddog perthnasol:** | Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 28 Tachwedd 2023 |

1. **Penderfyniad a geisir:**

   Gofynnir i'r Cabinet dderbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad sy'n adrodd ar waith y Panel Rhiant Corfforaethol ar gyfer y flwyddyn 2022-23.

2. **Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

   Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu diweddariad ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni gan y Panel Rhiant Corfforaethol yn ystod y cyfnod.

   Mae'n hanfodol bod aelodau'r Cabinet yn ymwybodol o waith y Panel ac yn gallu bodloni eu hunain bod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen yn drylwyr a chydwybodol.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

**3.1 Cefndir/ Cyflwyniad**

Mae gan Gyngor Gwynedd a'i bartneriaid gyfrifoldeb clir i fod yn Rhiant Corfforaethol i bob plentyn yng Ngwynedd, ac yn benodol i sicrhau gofal effeithiol, sefydlog, diogel ac addas ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal, ynghyd â'r rhai sy'n gadael gofal. Mae'r adroddiad hwn yn adrodd ar y gwaith sydd wedi ei wneud i sicrhau fod y Cyngor yn ymgymryd a'i chyfrifoldeb.

**3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

Credir i'r adroddiad grynhoi gwaith y Panel yn gywir a theg.

Nid oes asesiad effaith llesiant cyffredinol wedi'i gwblhau ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol, ond, bydd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cwblhau ar gyfer yr elfennau unigol a gynhwysir ynddo.

### 3.3 Camau nesaf

Dim i'w nodi

## 4. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 4.1 Prif Swyddog Cyllid

Mae'r adroddiad yn un ffeithiol, sy'n egluro i'r Cabinet y gwaith a gyflawnwyd gan y Panel yn ystod 2022-23. Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa, a ni fydd gweithredu'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant newydd.

### 4.2 Swyddog Monitro

Mae'n bwysig felly fod effeithlonrwydd y trefniadau yma yn cael eu hadolygu yn gyson. Mae gan y Cabinet gyfrifoldeb i gadw trosolwg o waith y Panel a'r modd y cyflawnir y dyletswydd yma.

**Rhestr Atodiadau:**

Adroddiad Blynyddol Panel Rhiant Corfforaethol 2022-2023